# Polisi ar ddefnyddio'r Gymraeg yn y Coleg

| | |
|---|---|
| **Cyhoeddi** | **Mai 2020** |
| **Dyddiad Adolygu** | **Mai 2023** |
| **Dechreuwr** | **Neris Morris**<br>**Swyddog Iaith Gymraeg** |
| **Lleoliad y Polisi** | **BIZ-Sharepoint/Intranet/Policies & Procedures/Cymraeg-Welsh** |
| **Cymeradwywyd y Polisi gan** | **Tîm Rheoli'r Coleg – 16.01.20** |

**Polisi ar ddefnyddio'r Gymraeg yn y Coleg**

**1. Cyd-destun**
**2. Cyflenwi Gwasanaethau**
**3. Gweithrediadau Mewnol**
**4. Llunio Polisïau**
**5. Monitro ac Adrodd**
**6. Delio â Materion Atodol**

## 1. Cyd-destun

1.1 Mae Safonau'r Gymraeg, a gyflwynwyd o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011, yn nodi'r disgwyliadau o ran sut y mae disgwyl i sefydliadau cyhoeddus yng Nghymru ddefnyddio'r Iaith Gymraeg yn eu busnes o ddydd i ddydd ac wrth ddarparu gwasanaethau. Derbyniodd y Coleg ei Hysbysiad Cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg ar 1 Hydref 2017 gydag amserlen o'r dyddiadau cwblhau disgwyliedig.

1.2 Mae'r Coleg wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaeth dwyieithog i'n dysgwyr, ein staff a'r cyhoedd, ac mae wrthi yn datblygu darpariaeth gynyddol ddwyieithog ac ethos dwyieithog gwell yng nghymuned y Coleg.

## 2. Cyflenwi Gwasanaethau

### 2.1 Cyflenwi Gwasanaethau: Gohebiaeth Ysgrifenedig

2.1.1 Croesewir gohebiaeth gan ddysgwyr y Coleg ac aelodau o'r cyhoedd yn Gymraeg neu Saesneg, a bydd gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn cael ei hateb yn Gymraeg. Ymatebir i bob gohebiaeth, boed yn Gymraeg neu yn Saesneg, o fewn yr un amserlen.

2.1.2 Rydym yn cadw cofnod o ddewis iaith dysgwyr a'u rhieni/gwarcheidwaid ar ddechrau pob blwyddyn academaidd, a bydd y rhai sydd wedi mynegi dewis iaith Gymraeg yn derbyn yr holl ohebiaeth yn y Gymraeg yn y dyfodol.

2.1.3 Mae llythyrau a chylchlythyrau safonol/generig yn cael eu cyhoeddi'n ddwyieithog.

### 2.2 Cyflenwi Gwasanaethau: Gwasanaethau Ffôn

2.2.1 Mae pob galwad sy'n dod i mewn yn cael ei ateb gyda chyfarchiad dwyieithog cychwynnol. Mae'r Coleg yn archwilio'r posibilrwydd o ddatblygu system lle mae unrhyw alwadau sy'n dod i mewn ac sy'n dewis yr opsiwn llinell "Gymraeg" yn cael eu cyfeirio'n awtomatig at aelod o staff sy'n siarad Cymraeg.

2.2.2 Mae negeseuon peiriannau ateb yn cynnwys neges ddwyieithog fer ac mae croeso i alwyr adael neges yn Gymraeg neu yn Saesneg. Byddwn yn ymateb i neges y galwr yn newis iaith y galwr.

2.2.3 Mae'r Coleg wedi ymrwymo'n llwyr i gynyddu nifer yr aelodau staff sy'n siarad Cymraeg mewn rolau sy'n delio â'r cyhoedd, wrth i swyddi o'r fath ddod yn wag, ac yn dibynnu ar allu'r siaradwyr Cymraeg sy'n ymgeisio am swyddi o'r fath.

### 2.3 Cyflenwi Gwasanaethau: Cyfarfodydd, Nosweithiau Agored a Chyflwyniadau

2.3.1 Bydd pob cyfarfod cyhoeddus yn cael ei hysbysebu'n ddwyieithog.

2.3.2 Bydd y Coleg yn gwneud pob ymdrech i sicrhau bod aelodau staff dwyieithog yn bresennol i gyfarch pobl yn ddwyieithog.

2.3.3 Bydd y Coleg yn darparu cyfieithu ar y pryd mewn cyfarfodydd cyhoeddus os yw nifer ddigonol o fynychwyr wedi mynegi eu dymuniad i gynnal y cyfarfod trwy gyfrwng y Gymraeg.

2.3.4 Mae'r Coleg yn annog ac yn datblygu ethos o ddefnyddio cyfarchion atodol yn Gymraeg a Saesneg ym mhob cyfarfod mewnol a chyhoeddus.

2.3.5 Pan fydd unigolyn wedi mynegi'r dewis i ymgymryd â'i fusnes trwy gyfrwng Cymraeg, bydd y Coleg yn sicrhau bod aelod staff priodol sy'n siarad Cymraeg yn bresennol i gyflawni hyn.

2.3.6 Bydd holiaduron a/neu arolygon wedi'u hanelu at y cyhoedd, dysgwyr a staff ar gael yn Gymraeg a Saesneg, neu'n ddwyieithog. Bydd anhysbysrwydd yr ymatebwyr, p'un a ydynt yn ymateb yn Gymraeg neu yn Saesneg, yn cael eu gwarchod.

### 2.4 Cyflenwi Gwasanaethau: Cyfathrebu Electronig

2.4.1 Mae croeso i bobl sydd am gyfathrebu trwy e-bost ddefnyddio naill ai Cymraeg neu Saesneg, a bydd y Coleg yn ymateb yn iaith y neges gychwynnol gan sicrhau nad oes oedi wrth ymateb.

2.4.2 Mae llofnodion e-bost staff yn ddwyieithog ac anogir aelodau staff sy'n siarad Cymraeg i arddangos y logo "Cymraeg Gwaith" i nodi eu bod yn siarad Cymraeg.

### 2.5 Cyflenwi Gwasanaethau: Brandio a Hunaniaeth Gyhoeddus

2.5.1 Mae y Coleg yn cyhoeddi'r holl ddeunydd corfforaethol yn ddwyieithog.

2.5.2 Mae hunaniaeth gorfforaethol y Coleg yn ddwyieithog.

2.5.3 Mae y Coleg yn sicrhau bod fformat, ansawdd, maint ac amlygrwydd yr iaith Gymraeg a Saesneg yn gyfartal ar yr holl ddeunyddiau corfforaethol.

2.5.4 Lle mae angen fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân o ddogfen/cyhoeddiad, mae y ddau fersiwn yn cael eu cyhoeddi a'u dosbarthu ar yr un pryd. Mae fersiynau Cymraeg a Saesneg o'r un safon ac yn cael eu harddangos gyda'i gilydd. Yn yr achosion hyn, ceir datganiad ym mhob fersiwn yn egluro bod y ddogfen hefyd ar gael yn yr iaith arall.

2.5.5 Mae logo'r Coleg a thempledi'r Coleg ar gael yn ddwyieithog ac yn sicrhau bod y ddwy iaith yn cael eu trin yn gyfartal.

2.5.6 Rhoddir arweiniad i staff y Coleg a rhanddeiliaid allanol ar sut i ddelio â chyhoeddiadau dwyieithog a fersiynau Cymraeg/Saesneg ar wahân o gyhoeddiadau.

2.5.7 Mae holl ffurflenni'r Coleg ar gael yn Gymraeg a Saesneg, neu'n ddwyieithog. Mae yr holl ddeunydd o'r fath yn cynnwys datganiad yn croesawu cyfathrebu yn Gymraeg neu yn Saesneg ac yn nodi na fydd dewis iaith yn arwain at unrhyw oedi.

2.5.8 Mae holl ddeunydd ysgrifenedig ac electronig y Coleg sydd wedi'i anelu at y cyhoedd yn cael eu cyhoeddi yn ddwyieithog, neu yn Gymraeg a Saesneg. Unwaith eto, mae y Coleg yn sicrhau bod fformat, ansawdd, maint ac amlygrwydd y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal ar ddeunydd o'r fath.

2.5.9 Mae holl ddeunydd cyhoeddusrwydd y Coleg yn cael eu cyhoeddi'n ddwyieithog a'u dylunio i drin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal.

2.5.10 Mae holl ddeunydd arddangos y Coleg ar gael yn Gymraeg a Saesneg, neu'n ddwyieithog, ac yn trin y ddwy iaith yn gyfartal.

2.5.11 Mae holl hysbysiadau a hysbysebion cyhoeddus y Coleg yn ymddangos yn Gymraeg a Saesneg ac maent yn trin y ddwy iaith yn gyfartal o ran fformat, ansawdd, maint ac amlygrwydd.

2.5.12 Mae hysbysiadau'r cyfryngau cymdeithasol yn cael eu postio yn Gymraeg a Saesneg, neu'n ddwyieithog, ac yn trin y ddwy iaith yn gyfartal.

## 3. Gweithrediadau Mewnol

### 3.1 Gweithrediadau Mewnol: Staffio a Recriwtio

3.1.1 Mae y Coleg yn cynnal archwiliad o siaradwyr Cymraeg ym mhob maes dysgu a maes swyddogaethol, sydd yn tynnu sylw at feysydd lle mae'r angen am aelodau staff â sgiliau Cymraeg yn cael ei ystyried yn "Hanfodol" neu'n "Ddymunol" mewn perthynas â natur y swydd a blaenoriaethau Llywodraeth Cymru.

3.1.2 Mae gofyn i holl weithwyr y Coleg hunanasesu eu sgiliau ieithyddol Cymraeg mewn Siarad, Gwrando, Darllen ac Ysgrifennu bob yn ail flwyddyn. Mae yr wybodaeth a gesglir yn llywio Cynllunio Ieithyddol Gweithlu'r Coleg.

3.1.3 Yn achos apwyntiadau i rôl lle mae'r gallu i siarad neu ysgrifennu yn Gymraeg yn cael ei ystyried yn sgil "Hanfodol" yn yr hysbyseb swydd a'r swydd-ddisgrifiad, mae y lefel briodol o hyfedredd yn y ddwy iaith, yn ysgrifenedig ac ar lafar, yn cael ei phrofi mewn cyfweliad.

### 3.2 Gweithrediadau Mewnol: Rhaglen Sefydlu, Datblygu Staff a Hyfforddiant

3.2.1 Mae pob aelod newydd o staff yn dilyn Rhaglen Sefydlu undydd y Coleg, sy'n cynnwys sesiwn ryngweithiol ar Iaith a Diwylliant Cymru, cydymffurfio â Safonau Iaith Cymru ac arweiniad ar ble i ddod o hyd i gymorth ar y Porth Staff mewn perthynas â gwasanaethau cyfieithu a dosbarthiadau Iaith Gymraeg yn ystod oriau gwaith.

3.2.2 Mae y Coleg yn cynnal archwiliad rheolaidd o gydymffurfiad meysydd dysgu a meysydd swyddogaethol â Safonau'r Gymraeg, ac mae cynlluniau gweithredu yn cael eu rhoi ar waith. Mae pob maes dysgu a swyddogaethol yn cymryd cyfrifoldeb am weithio gyda'r Swyddog Cymraeg i gyflawni gweithredoedd penodol o fewn amserlen benodol.

3.2.3 Mae hyfforddiant Cymraeg penodol yn cael ei ystyried fesul rôl mewn perthynas â blaenoriaethau'r Coleg a Llywodraeth Cymru.

### 3.3 Gweithrediadau Mewnol: Cyfieithu

3.3.1 Mae gan yr holl aelodau staff fynediad i wasanaeth cyfieithu mewnol y Coleg ac maent yn cael cyngor ar sut i ddefnyddio'r gwasanaeth hwn yn briodol.

3.3.2 Yn ystod cyfnodau pan fydd galw mawr am waith cyfieithu sy'n fwy na chapasiti y cyfleuster cyfieithu mewnol, mae y Coleg yn anfon deunyddiau at gyfieithydd allanol, gan sicrhau bod gan unrhyw gyfieithydd allanol a ddefnyddir y cymhwyster cyfieithu cydnabyddedig perthnasol.

## 4. Llunio Polisïau

### 4.1 Llunio Polisïau: Polisïau a Mentrau Newydd

4.1.1 Mae y Coleg yn monitro pob polisi a menter newydd i sicrhau eu bod yn gyson â'n Polisi ar ddefnyddio'r Gymraeg ac yn cydymffurfio â'n Hysbysiad Safonau'r Gymraeg.

4.1.2 Mae pob polisi a menter newydd yn cael eu harchwilio fel rhan o'n proses Asesu Effaith, i asesu eu goblygiadau ieithyddol posibl ac i sicrhau nad oes unrhyw effaith negyddol ar y Gymraeg.

4.1.3 Rydym yn sicrhau bod pob tîm staff sy'n llunio polisïau ac yn creu mentrau newydd yn ymwybodol o'n polisi ar ddefnyddio'r Gymraeg ac yn glynu wrtho, ac yn ymwybodol o ofynion ein Hysbysiad Cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg.

4.1.4 Mae y Coleg yn ymdrechu i greu polisïau a mentrau newydd a fydd yn hyrwyddo, annog a datblygu iaith ac ethos Cymru lle bynnag y bo hynny'n berthnasol.

### 4.2 Llunio Polisïau: Tendrau

4.2.1 Pan fydd y Coleg yn gwahodd tendrau am gontractau penodol, mae tueddiadau a gofynion ieithyddol yn cael eu hystyried a'u cyfleu yn y fanyleb dendro; mae monitro isgontractwyr yn cynnwys cyfeiriad at eu perfformiad mewn perthynas ag ystyriaethau Cymraeg.

4.2.2 Os bydd y Coleg yn derbyn tendr yn Gymraeg, bydd trefniadau'n cael eu gwneud i dendrwyr sy'n dymuno defnyddio'r Gymraeg mewn cyfweliad neu gyflwyniad.

4.2.3 Mae y Coleg yn hyrwyddo ein polisi ar ddefnyddio'r Gymraeg gyda rhanddeiliaid a sefydliadau eraill nad ydynt yn cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg, ac yn eu hannog i fabwysiadu ein prosesau ar gyfer cydymffurfio.

4.2.4 Os bydd y Coleg yn cymryd rhan mewn trefniadau trydydd parti, bydd yn ceisio sefydlu bod unrhyw gontractau o'r fath yn gyson â'n polisi ar ddefnyddio'r Gymraeg a'n Hysbysiad Cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg.

## 5. Monitro ac Adrodd

5.1 Mae'r Swyddog Iaith Gymraeg yn gyfrifol am gyngor ac arweiniad ar lynu wrth bolisi defnyddio'r Gymraeg y Coleg, a chydymffurfio â Hysbysiad Safonau'r Gymraeg, ac mae hi'n adrodd yn ôl i'r Is-bennaeth.

5.2 Mae gan Bennaeth y Coleg gyfrifoldeb cyffredinol am yr uchod.

5.3 Mae'r Coleg yn gweithredu Grŵp Llywio'r Gymraeg, sy'n cynnwys cynrychiolaeth o feysydd dysgu a swyddogaethol o bob campws. Mae'r Grŵp Llywio'r Gymraeg, dan gadeiryddiaeth Pennaeth y Coleg, yn cwrdd unwaith bob tymor ac yn monitro perfformiad y Coleg yn erbyn dangosyddion perfformiad a chynlluniau gweithredu unigol y cytunwyd arnynt. Mae aelodau Grŵp Llywio'r Gymraeg yn cymryd cyfrifoldeb am ledaenu mentrau ac arweiniad ar draws yr holl feysydd dysgu a swyddogaethol.

5.4 Mae’r Swyddog Iaith Gymraeg yn cynhyrchu Adroddiad Blynyddol ar weithgareddau a pherfformiad y Coleg mewn perthynas â’r Hysbysiad Cydymffurfio; trafodir yr Adroddiad Blynyddol yng nghyfarfodydd y Grŵp Llywio’r Gymraeg ac fe’i cyflwynir i Dîm Rheoli’r Coleg i’w adolygu a’i gymeradwyo wedi hynny, cyn ei gyhoeddi ar wefan y Coleg ac ar y fewnrwyd staff. Mae pob aelod o staff yn cael gwybod am ei gyhoeddiad trwy’r fewnrwyd staff.

## 6. Delio â Materion Atodol:

Mae’r Coleg wedi cyflwyno system ar gyfer goruchwylio, hyrwyddo a hwyluso Safonau cysylltiedig â Chyflenwi Gwasanaethau, Llunio Polisïau a Gweithgarwch Gweithredol:

- Mae pob Rheolwr Maes Swyddogaethol yn cwblhau hunanarfarniad graddio RAG mewn perthynas â Safonau perthnasol yn flynyddol.
- Mae canlyniadau’r hunanarfarniadau hyn yn sylfaen i gynllun gweithredu pob maes, gan weithio gyda Swyddog Iaith Gymraeg y Coleg. Mae’r cynlluniau gweithredu yn destun adolygiadau bob yn ail flwyddyn.
- Bydd canlyniadau’r hunanarfarniadau yn rhan o adroddiad blynyddol y Coleg i Gomisiynydd y Gymraeg.
- Bydd manylion canlyniadau a chynlluniau gweithredu yn cael eu trafod yng nghyfarfodydd y Grŵp Llywio’r Gymraeg, a gynhelir tair gwaith y flwyddyn o dan gadeiryddiaeth Pennaeth y Coleg.
- Cyfrifoldeb y Swyddog Iaith a’r Hyrwyddwr Dwyieithrwydd yw hyrwyddo gwasanaethau Cymraeg yn y Coleg, gyda chymorth y tîm Marchnata ac Eiriolwyr y Gymraeg mewn meysydd swyddogaethol, ac mae’r gwaith yn cael ei oruchwylio gan y Grŵp Llywio’r Gymraeg.
- Mae Profforma Asesu Effaith y Coleg wedi cael ei ddiweddaru i gynnwys cwestiynau yn ymwneud â hyrwyddo’r Gymraeg, ac i ystyried goblygiadau effaith cadarnhaol, a drafodir cyn eu cyflwyno i bwyllgor perthnasol y Coleg i’w cymeradwyo.
- Gwneir holl isgontractwyr y Coleg yn ymwybodol o Hysbysiad Cydymffurfio â Safonau’r Gymraeg y Coleg, ac mae disgwyl iddynt lynu wrth y Safonau perthnasol a chydymffurfio â nhw wrth gyflawni eu gwaith ar ran y Coleg.

- Mae'r Coleg wedi cyflwyno ymarfer mewnol 'Cwsmer Cudd' a fydd yn rhan o'n gwaith mewnol o fonitro cydymffurfiaeth a chynnydd mewn perthynas â Safonau'r Gymraeg. Bydd yr ymarfer yn cael ei gynnal unwaith y tymor a bydd aelodau Grŵp Llywio'r Gymraeg y Coleg yn arwain, gan weithio ar draws campysau ar ymarferion â thema benodol a ddewiswyd. Bydd canlyniadau ymarferion o'r fath yn cael eu hadrodd i'r Grŵp Llywio'r Gymraeg a Thîm Rheoli'r Coleg, a byddant yn sylfaen i weithgaredd yn y dyfodol sy'n ymwneud â chydymffurfio a hyrwyddo'r Iaith Gymraeg.

## 7. Yr Iaith Gymraeg

7.1 Mae Coleg Gŵyr Abertawe yn ymrwymedig i hyrwyddo'r iaith Gymraeg, yn unol â Safonau'r Iaith Gymraeg a Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.